# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **24 Mai 2017**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Wendy Fitzgerald | Adran Etholiadol: | Penllergaer |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Parheais i arwain gwrthwynebiad y gymuned i gynigion y CDLl ar gyfer Penllergaer a oedd yn cynnwys cyfarfodydd cyhoeddus ychwanegol a chyflwyno ein gwrthwynebiad mewn manylder ar ddiwedd mis Awst 2016. Roedd hyn yn adroddiad 240 o dudalennau, gan gymryd llawer iawn o amser i'w goladu a'i ysgrifennu. Gwnes i hynny mewn cydweithrediad â phreswylydd a chyda chefnogaeth Cyngor Cymuned Penllergaer.

Drwy gydol y flwyddyn, diweddarais breswylwyr ar y gweithgareddau yr ymgymerais i â nhw ar eu rhan gan ysgrifennu fy nghylchlythyr rheolaidd a'i ddosbarthu i bob aelwyd ym mis Ebrill 2016, mis Medi 2016, mis Tachwedd 2016 a mis Mawrth 2017.

Bues i'n ymdrin â phynciau eang ac amrywiol, gan weithio'n agos gyda swyddogion y cyngor yn aml iawn er mwyn cael canlyniad boddhaol. Cynigais gyngor hefyd i breswylwyr, gan ymdrin â llawer o faterion personol ar ran sawl unigolyn.

Sicrhawyd drwy'm cylchlythyrau y cafodd pawb eu hatgoffa'n rheolaidd o'm manylion cyswllt a fy mod i'n gallu ymateb yn gyflym i unrhyw broblem a godir gyda fi fel arfer. Rwyf yn ymweld â phobl yn aml iawn yn eu cartrefi a cheisiaf sicrhau bod pawb yn gwybod y gallaf wneud hyn yn aml ac ar fyr rybudd.

Nid wyf yn cynnal cymorthfeydd oherwydd, yn fy marn i, mae'n annerbyniol bod unrhyw un yn aros i'm gweld pan fyddaf ar gael yn gyffredinol.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr is-adran etholiadol.

Dangosir isod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgorau:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Arfarnu a Chydnabyddiaeth Ariannol y Prif Weithredwr | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Gweithgor y Cyfansoddiad | 2 | / | 2 | 100 | % |
| Y Cyngor | 16 | / | 16 | 100 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 13 | / | 13 | 100 | % |
| **Cyffredinol** | **32** | **/** | **32** | 100 | **%** |
| | | | | | |
| **Cyfarfodydd Craffu:** | | | | | |
| Ymchwilio i Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Panel Ymchwilio pa mor barod yw plant i fynd i'r ysgol | 9 | / | 10 | 90 | % |
| Panel Ymchwiliad Cynhwysiad Addysg | 1 | / | 2 | 50 | % |
| Gweithgor Rheoli Perygl Llifogydd Lleol | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Gweithgor Cynllunio | 2 | / | 3 | 67 | % |
| **Cyffredinol** | **15** | **/** | **19** | **79** | **%** |

## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Bues i'n arweinydd y Grŵp Annibynnol, aelod o Bwyllgor y Rhaglen Graffu ac ar y Panel Penodi. Cymerais i ran hefyd mewn swyddogaethau craffu eraill.

Rwyf yn Gynghorydd Cymuned ac yn Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Penllergaer.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Y prif fater oedd y Cynllun Datblygu Lleol a'i oblygiadau i Benllergaer. Cymerodd paratoi ymateb i'r Cynllun Adnau lawer iawn o amser, gan gynnwys gwaith ymchwil sylweddol.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Wedi bod yn athrawes ac wedi hynny, reoli fy muses fy hun am sawl blwyddyn, rwyf yn gyfarwydd â gweithio gyda phobl ac mae 'sgiliau pobl' yn werthfawr tu hwnt i aelod ward.

Yn ogystal, euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

19/05/2017 - Gwneud penderfyniadau da, Tuedd, Penderfynu Ymlaen Llaw a Rheolau Cyfiawnder Naturiol
11/05/2017 - Côd Ymddygiad
07/11/2016 - Diogelu
07/07/2016 - Deddf Cynllunio Cymru - Gweithdrefnau Rheoli Datblygu

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rwyf yn aelod sefydlu grŵp Penllergaer Crafters a Penllergaer Icers, sef dau grŵp prysur iawn yn y gymuned. Yn ystod hydref 2016, cynhaliwyd Noson yr Oes a fu i Fenywod gennym, gan godi £1,500 i ddwy elusen leol, ac ym mis Mawrth 2017, trefnwyd Bore Coffi ac Arddangosfa Gelf a gododd £900 i Headway. Codwyd £1,100 yn y digwyddiad 'Gardd Agored' yn fy nghartref ym mis Gorffennaf 2016 (sydd bellach yn ddigwyddiad blynyddol) i'r Clwb Forget Me Nots, er gwaethaf tywydd gwael.

Rwyf hefyd yn aelod gweithgar yng Nghlwb Garddio Penllergaer (sydd ag aelodaeth fawr o dros 90) ac rwyf wedi helpu i gynnal noson Eidalaidd hynod lwyddiannus ers ein trydedd daith i'r Eidal.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 19.01.2018 |